

## GWYBODAETH AM Y CYNLLUN GWIRFODDOLI

---

Shw'mae!

Diolch am eich diddordeb mewn dod yn Tywyswr Gwirfoddol yn Theatr y Sherman.

Mae gwirfoddoli yn y Sherman yn ffordd gyffrous a chymdeithasol i wyllo perfformiadau byw, dysgu sgiliau newydd ac ymuno a thîm o bobl o'r un anian sy'n helpu i gefnogi un o dai cynhyrchu mwyaf blaenllaw'r D.U.

Yn y pecyn hwn, fe welwch ychydig o wybodaeth gefndirol am Theatr y Sherman, ynghyd a gwybodaeth fanylach am y rôl.

Os hoffech chi ddod yn Dywyswr Gwirfoddol, cwblhewch y ffurfleni gais â fonitro cyfle cyfartal a'i dychwelyd atom nail a'i drwy'r cyfeiriad uchod neu drwy e-bostio ni [volunteers@shermantheatre.co.uk](mailto:volunteers@shermantheatre.co.uk)

Os ydych chi'n llwyddiannus gyda'ch cais, fe'ch gwahoddir i gael cyfweiliad anffurfiol. Yn dilyn y cyfweiliad, gwahoddir ymgeiswyr lwyddiannus i sesiwn hyfforddiant i'w croesawu i Theatr y Sherman.

Diolch eto am eich diddordeb ac edrychwn ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Dymuniadau gorau,

**Tîm Blaen y Tŷ**  
Theatr y Sherman

## SWYDD-DDISGRIFIAD: TYWYSYDD GWIRFODDOL

### Prif bwrpas y rôl:

To provide a warm and friendly welcome, ensuring the safety and welfare of all audience members, helping us deliver a rich, positive and unforgettable customer experience.

### Adroddiadu i:

Rheolwr Ty and Dirprwy Reolwr Ty

### Y Rôl:

- ♦ I wirio'r ardal eistedd a cadw'r llwybrau gwagio yn glir o unrhyw rwystrau.
- ♦ Gwneud yn siwr bod gan gwsmeriaid y tocyn cywir ar gyfer perfformiad a'u cyfeirio i mewn / allan o'r theatre, i'w seddi yn benodedig ac i'r cyfleusterau priodol cyn, yn ystod ac ar ôl pob perfformiad mewn modd cyfeillgar ac effeithlon.
- ♦ Bod yn bwynt cyswllt cyntaf i'n cwsmeriaid, gan ateb cwestiynau, ymholiadau a datrys problemau.
- ♦ Gwerthu rhaglenni, nwyddau ag hufen iâ.
- ♦ Goruchwyllo'r gynulleidfa yn ystod y perfformiad, e.e. gofyn i bobl dawelu neu rhoi gorau'i dynnu lluniau neu ffilmio.
- ♦ Sierhau bod y theatre yn gweithredu o fewn ffiniau iechyd a diogelwch yn ystod pob perfformiad (yn unol a chyfarwyddyd y Rheolwr ar Ddyletswydd).
- ♦ Gweithredu fel marsial gwagio yn ol yr angen, gan gynorthwyo'r Rheolwr ar Ddyletswydd i sierhau bod cwsmeriaid yn gadael yr adeilad mewn modd diogel ac amserol (byddwch yn derbyn hyfforddiant llawn)
- ♦ Gwirio ar ol y sioe ar gyfer eiddo coll a chasglu sbwriel, gan gynnwys dychwelyd glasiau plastig yn ol i'r bar. Darperir menig a bagiau sbwriel priodol lle bod angen.
- ♦ Hyrwyddo a chydymffurfio a pholisi cyfle cyfartal Theatr y Sherman wrth wasanaethu a thrin eraill.
- ♦ Cofleidio a chadw at werthoedd brand Theatr y Sherman.

### Gofynion:

Nodwch mai'r isafswm oedran gofynnol i fod yn wirfoddolwr yw 16.

### Beth ydy ni'n chwilio am mewn ymgeiswyr:

- ♦ Y gallu i ymgomio â'r cyhoedd.
- ♦ Prydlon a dibynadwy.
- ♦ Trwsiadus, cyfeillgar a chwrtais.
- ♦ Y gallu i aros yn ddigynnwrf o dan bwysau.
- ♦ Diddordeb mewn theatr, digwyddiadau byw neu'r celfyddydau (neu'n barod i ddysgu)

**Shifftiau Gwirfoddol:**

Rydym yn holi i'n holl wirfoddolwyr ymrwymo i 2 shifft y mis.

Mae shifft arferol yn para oddeutu 3 awr, gyda'r shifft yn dechrau awr cyn i'r perfformiad gychwyn.

Fel tywysydd gwirfoddol bydd gennych chi fynediad i'n pecyn buddion sy'n cynnwys lluniaeth am ddim yn ystod eich shifft, tocynnau am ddim i sioeau, gwahoddiadau i ddigwyddiadau arbennig a gostyngiadau yn ein Bar Caffi. Byddwch hefyd yn cael eich gwahodd o bryd i bryd i sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth arbenigol, megis nam ar y golwg, dementia a'r cyfle i ddysgu Cymraeg.

**Mae'n ddyletswydd arnoch i ddal at y Datganiad Cyfleoedd Cyfartal ynghyd â datganiadau Polisi cyfredol eraill fel y manylir yn y Llawlyfr Staff.**

## GWYBODAETH CEFN AM Y SHERMAN

Agorodd Theatr y Sherman ym 1973 gyda chefnogaeth ariannol gan Brifysgol Caerdydd. Yn 2007, unodd Theatr y Sherman a Sgript Cymru i ffurfio cwmni newydd o'r enw Sherman Cymru.

O 2010 am ddwy flynedd, cafodd yr adeilad ei foderneiddio a'i adnewyddu. Fe wnaethom ni ailagor yn 2012 gyda ffasâd newydd, ail-gyfluniad mawr o blaen y ty a'r ardal gefn llwyfan, ystafellion ymarfer newydd ac ail-edrychiadau yn y ddau awditoria.

Yn 2016, gwnaethom ail-frandio a gweithredu'r cynllun Gwirfoddolwyr, gyda ffocws ar wneud theatr yn allweddol i bawb yn y gymuned.

Mae'r Sherman yn gartref i ddau awditoria; y Brîf Dy a'r Stiwdio. Mae'r Prîf Dy yn eistedd 452 a dyma lle rydyn ni'n cynnal ein sioe Nadolig i rai dros 7 oe, yn ogystal a sioe glasurol yr Hydref. Mae gofod y Stiwdio yn eistedd at 200, yn dibynnu ar gyfluniad y gofod, a dyma lle mae llawer o gwmnïau ar daith yn perfformio.

Ym mis Ionawr 2018 daeth Theatr y Sherman yn gyntaf yng Nghymru i ennill teitl Theatr Ranbarthol y Flwyddyn yng Ngwobrau The Stage, gan gydnabod y Sherman fel y theatre mwyaf cyffrous yn y D.U., tu allan i Lundain.

Ym mis Ebrill 2018 ennillodd ein cynhyrchiad o 'Killology' gan Gary Owen wobr Olivier am Gyflawniad Eithriadol mewn Theatr Gysylltiedig (cyd-gynhyrchiad gyda Royal Court Theatre yn Llundain).

Ym mis Tachwedd 2019, penodwyd Theatr y Sherman yn Theatr Noddfa cyntaf Cymru. Mae'r statws a bennwyd gan Dinas Noddfa yn cydnabod y Sherman fel man lle y gall ffoaduriaid a cheiswyr noddfa deimlo'n ddiogel, dderbyn croeso a derbyn cefnogaeth



## DATGANIAD PERSONOL

Defnyddiweh y gofod hwn i ddweud wrthym pam yr hoffech wirfoddoli yn Theatr y Sherman.

Faint o sesiynau a ydych yn ar gael yn fisol?

1

2

3

4

4+

Sut wnaethoch chi clywed am gwirfoddoli yn Theatr y Sherman?

☐ Ar lafar

☐ Poster

☐ Wefan Theatr y Sherman

☐ Cyfryngau Gymdeithasol

Arall (nodwch isod)

## TYSTLYTHYRAU

Rhowch enw, cyfeiriad, rhif ffôn a statws o leiaf un unigolyn sy'n fodlon darparu geirda (personol neu broffesiynol).

|                  |  |
|------------------|--|
| <b>Enw</b>       |  |
| <b>Cyfeiriad</b> |  |
| <b>Côd Post</b>  |  |
| <b>Rhif Ffôn</b> |  |
| <b>E-bost</b>    |  |
| <b>Perthynas</b> |  |

|                  |  |
|------------------|--|
| <b>Enw</b>       |  |
| <b>Cyfeiriad</b> |  |
| <b>Côd Post</b>  |  |
| <b>Rhif Ffôn</b> |  |
| <b>E-bost</b>    |  |
| <b>Perthynas</b> |  |

## GWYBODAETH YCHWANEGOL

Defnyddiwech y gofod hwn os hoffech rhoi gwybod i ni am unrhyw gymorth neu addasiadau allwn i wneud i gynorthwyo chi yn y cyfweiliad a / neu yn y rôl.

*Rhan fawr o rôl gwirfoddolwyr yw'r gallu i ymateb yn gyflym mewn achos o argyfwng, gall fod yn feddygol neu arwain cwsmeriaid o'r adeilad. Un o amodau cael eich apwyntio fel gwirfoddolwr i Sherman Cymru yw eich bod yn ddigon iach yn gorfforol i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Bydd Sherman Cymru yn asesu gallu'r gwirfoddolwyr i ymgymryd â'r swydd yn ddiogel ar sail barhaus. Os oes gennych unrhyw gyflwr meddygol a all effeithio ar eich gallu i gyflawni dyletswyddau penodol rhowch wybod i'r Rheolwr Blaen Tŷ yn eich sesiwn ragarweiniol os gwelwch yn dda.*

Ydych chi erioed wedi cael eich dyfarnu'n euog o drosedd?  
Os 'rydych, rhowch fanylion ar ddalen ar wahân.

**Ydw**  
**Nac Ydw**

*O dan y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974, efallai y bydd gennych hawl i ateb 'Na' i'r cwestiwn hwn hyd yn oed os ydych chi wedi, yn y gorffennol, yn euog o dramgwydd. Fodd bynnag, mae rhai mathau o gyflogaeth yn cael eu heithrio o dan Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) Gorchmynion 1975, o amddiffyn y Ddeddf. Os yw'r deunyddiau cais yn nodi bod y swydd hon yn cael ei heithrio o Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr (1974), mae'n ofynnol i chi ddarparu manylion unrhyw gollfarnau sydd wedi darfod, rhybuddion, ceryddon a rhybuddion terfynol a allai fod gennych yn ychwanegol at unrhyw gollfarnau heb ddarfod neu achos troseddol i ddod yn eich erbyn.*

A oes unrhyw gyfyngiadau ar eich preswyliaid yn y DU a allai effeithio ar eich hawl i gael gwaith yn y DU?

**Oes**  
**Nac Oes**

## DATGANIAD

Yr wyf yn deall bydd fy ngwybodaeth personol yn cael ei gynnal a'i ddefnyddio ar gyfer personél /dibenion gweinyddol ond nid ei ddosbarthu i bartïon eraill heb fy nghaniatâd. Yr wyf yn ymwybodol, os caf fy newis ar gyfer swydd cael mynediad at blant neu grwpiau eraill a ddiogelir, bydd Sherman Cymru yn cynnal gwiriad cofnodion troseddol i sefydlu a oes gen i gefndir troseddol.

Tieiwech y blwch hwn os hoffech gael eich ychwanegu at y rhestr bostio Theatr y Sherman.

Rwyf wedi darllen a deall y wybodaeth a roddwyd ac yn dymuno ymgymryd â hyfforddiant fel tywysydd gwirfoddol.

Llofnod \_\_\_\_\_

Dyddiad \_\_\_\_\_

## DUDALEN YCHWANEGOL

---